

Minutes of the remote **Council Meeting** via ZOOM video conferencing on **Monday 2 November 2020** at 6.30 p.m.

PRESENT:- His Worship The Mayor Councillor John Wyn Williams
The Deputy Mayor Councillor Owen Hurcum
Councillors Gwynant Roberts (Chairman)
Dylan Fernley
Enid Parry
Ifan James
John Wynn Jones
Huw Wyn Jones

Colin King
Kieran Jones
John Martin
George Turner
Medwyn Hughes

Luke Tugwell
Mair Rowlands
Elin Walker Jones
Gareth Roberts

Officer: - Martin Jones, Acting Town Clerk

284/19 APOLOGIES

Apologies for absence were received from Councillors Les Day and Nigel Pickavance.

285/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

None.

286/19 PUBLIC PARTICIPATION

Cllr Catrin Wager (CG) addressed the Council about the potential benefits of establishing a community orchard by utilising the Welsh Government Social Farms and Gardens scheme. She asked the Council if they would consider having such an orchard on one of the Council's tracks of land in particular Dargie Fields.

RESOLVED: to delegate this matter to the Asset and Greening Committee.

287/19 ANNOUNCEMENTS

- i. Remembrance Sunday – With the most recent Welsh Government restrictions still in place for this year's Remembrance Sunday, the Council were asked to consider the somewhat conflicting advice as to whether to hold a small outdoor ceremony or to recommend that people commemorate the event electronically. The Council were advised that if it organised any event and more than 30 people attended, it would breach legislation, for which the Council would be held accountable.

RESOLVED: To promote an electronic commemoration and for the Mayor and Deputy Mayor to lay wreaths in a private ceremony at an unpublished time.

- ii. The Council were appraised of a joint initiative with Pontio, to prepare a promotional video of Bangor. Calls for contributors would be distributed on social media over the coming days and it was intended that the Mayor would be making a contribution.
- iii. It was reported that the Council have received additional Covid-19 Support applications and that Committee would be sitting again over the coming week. It was also suggested that the Council discuss a long-term policy towards Covid-19 support in the community.

288/19 2nd FLOOR, Ffordd Gwynedd - This item was deferred

289/19 MINUTES OF COUNCIL / COMMITTEES

a) Zoom Council Meeting 7 September 2020

RESOLVED: that the Minutes of this Meeting be approved with minor amendments, as an accurate record of the meeting,

b) Zoom Planning and Amenities Committee 14 September 2020

RESOLVED: that the Minutes of this Meeting be approved, with minor amendments, as an accurate record of the meeting,

c) Zoom Planning and Amenities Committee 5 October 2020

RESOLVED: that the Minutes of this Meeting be approved, with minor amendments, as an accurate record of the meeting,

290/19 INVOICES FOR PAYMENT

It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £17637.39 had been approved.

RESOLVED: that the payments be noted.

291/19 SIGNING OF DOCUMENTS.

To approve the signing of documents Pertinent to any decision by this Council Meeting.

The Meeting finished at 6.45 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd drwy fideo gynadledda Zoom, **Nos Lun, 2 Tachwedd 2020** am 6.30 y.h.

PRESENNOL :- Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd J Wyn Williams

Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Owen Hurcum

Y Cynghorwyr Gwynant Roberts (Cadeirydd)

Dylan Fernley

Colin King

Luke Tugwell

Enid Parry

Kieran Jones

Mair Rowlands

Ifan James

John Martin

Elin Walker Jones

John Wynn Jones

George Turner

Gareth Roberts

Huw Wyn Jones

Medwyn Hughes

Swyddog: - Martin Jones, Clerc y Dref Dros Dro

284/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Les Day a Nigel Pickavance.

285/19 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

286/19 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Soniodd y Cynghorydd Catrin Wager (CG) wrth y Cyngor am fuddiannau posibl sefydlu perllan gymunedol drwy ddefnyddio Cynllun Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Gofynnodd i'r Cyngor a fyddai'n ystyried cael perllan o'r fath ar un o leiniau tir y Cyngor, yn arbennig Caeau Dargie.

PENDERFYNWYD dirprwyo'r mater hwn i'r Pwyllgor Asedau a Gwyrddio.

287/19 CYHOEDDIADAU

- i. Sul y Cofio – Gyda chyfyngiadau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dal mewn grym adeg Sul y Cofio eleni, gofynnwyd i'r Cyngor ystyried y cyngor a oedd ychydig yn anghyson, ynghylch a ddylid cynnal seremoni fechan y tu allan neu argymhell i bobl nodi'r digwyddiad yn electronig. Dywedwyd wrth y Cyngor, pe bai'n cynnal unrhyw ddigwyddiad a mwy na 30 o bobl yn dod yno, y byddai'n torri'r gyfraith, a byddai'n atebol am hynny.
PENDERFYNWYD: Hyrwyddo coffa electronig a'r Maer a'r Dirprwy Faer i osod torch mewn seremoni breifat, heb gyhoeddi'r amser.
- ii. Cafodd y Cyngor wybod am gynllun ar y cyd â Pontio, i baratoi fideo'n hyrwyddo Bangor. Byddai galwadau am gyfraniadau yn cael eu dosbarthu ar y cyfryngau cymdeithasol dros y diwrnodau nesaf a'r bwriad oedd y byddai'r Maer yn gwneud cyfraniad.
- iii. Adroddwyd fod y cyngor wedi derbyn ceisiadau ychwanegol am Gymorth Covid-19 ac y byddai'r Pwyllgor yn eistedd eto yn yr wythnos ganlynhol. Awgrymwyd hefyd fod y Cyngor yn trafod polisi hir dymor o ddelio â chefnogaeth Covid-10 yn y gymuned.

288/19 AIL LAWR, Ffordd Gwynedd- Gohiriwyd yr eitem hon.

289/19 COFNODION Y CYNGOR / PWYLLGORAU

a) Cyfarfod y Cyngor ar Zoom – 7 Medi 2020

PENDERFYNWYD: cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod hwn, gyda mân newidiadau, fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

b) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau ar Zoom – 14 Medi 2020

PENDERFYNWYD: cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod hwn, gyda mân newidiadau, fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

c) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau ar Zoom - 5 Hydref 2020

PENDERFYNWYD: cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod hwn, gyda mân newidiadau, fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

290/19 ANFONEBAU I'W TALU

Adroddwyd fod anfonebau fel ag yn ôl y rhestr yn dod i gyfanswm o £17,639.37 wedi cael eu cymeradwyo.

PENDERFYNWYD nodi'r taliadau.

291/19 ARWYDDO DOGFENNAU

Arwyddo dogfennau oedd yn berthnasol i unrhyw benderfyniad gan y Cyfarfod Cyngor hwn.
Daeth y Cyfarfod i ben am 6.45 y.h.